Cymorth Planning
Cynllunio Aid
Cymru Wales

Addroddiad Blynyddol 2008 / 2009

Diddordeb mewn gwirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru ?

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn elusen gofrestredig sy'n darparu cefnogaeth a chyngor annibynnol, proffesiynol am ddim ar bob agwedd o gynllunio defnydd tir yng Nghymru. Dim ond trwy weithio gyda'n rhwydwaith gynyddol o wirfoddolwyr ledled Cymru y gallwn wneud hyn. Fel gwirfoddolwyr gyda Chymorth Cynllunio Cymru, gallwch ddewis cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys:

- **Cyngor:** Rydym yn darparu Llinell Gymorth sy'n rhoi cyngor ar achosion cynllunio unigol i unigolion a grwpiau cymuned sydd methu fforddio ymgynghorydd. Ymgymerir â llawer o'r gwaith yma gan wirfoddolwyr cynllunio cymwys.
- **Hyfforddi:** Mae gwirfoddolwyr cynllunio profiadol yn helpu darparu hyfforddiant a chefnogaeth ymrwymiad i grwpiau cymuned. Hefyd mae arnom angen sgiliau eraill yn cynnwys hwyluso, hyfforddi ac eiriol.
- **Cyhoeddiadau:** Rydym yn cyhoeddi amrediad o gyhoeddiadau a deunyddiau dysgu sy'n esbonio'r system gynllunio i bobl leyg. Gall gwirfoddolwyr gynorthwyo trwy ysgrifennu'r cynnwys, paratoi darluniau, prawf ddarllen a chyfieithu.
- **Gwasanaethu fel Cyfarwyddwr:** Gallwch hefyd wirfoddoli eich sgiliau trwy ddod yn gyfarwyddwr ar Fwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru. Mae arnom angen pobl â phrofiad mewn rheoli sefydliadau, codi arian, marchnata a datblygu cymuned – nid yw arbenigedd cynllunio'n ofynnol.

Gall y gwirfoddolwyr ddewis faint o amser i'w roi a hefyd y math o weithgareddau yr hoffent gynnig eu help – mae rhai gwirfoddolwyr yn dewis ehangu eu gorwelion trwy gyfrannu at weithgareddau sydd tu hwnt i'w gwaith bob dydd. Gallwn gefnogi gwirfoddolwyr ar bob lefel o brofiad.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n ymrwymedig i gefnogi eu gwirfoddolwyr trwy gynnig hyfforddiant am ddim a chyfleoedd rhwydweithio. Hefyd, mae'r amser a dreulir yn gwirfoddoli gyda chymorth cynllunio yn cyfrif tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

Os hoffech wybod mwy am wirfoddoli gyda Chymorth Cynullunio Cymru os gwelwch yn dda cysylltwch â James Davies, Cydlynydd Gwirfoddolwyr ar **02920 464 225** neu **james@planningaidwales.org.uk**. Neu gallwch ymweld â **www.planningaidwales.org.uk/volunteering**.

Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol
Ebrill 2008 i Fawrth 2009

Cynnwys

		Tudalen
Rhagair		2
Gwaith achos		3
Rhannu gwybodaeth gyda chymunedau a'u cael i gymryd rhan		5
Datblygu'r sefydliad		8
Gweithio mewn partneriaeth		11
Edrych i'r dyfodol		12
Atodiad 1	Meini prawf cymhwyster	13
Atodiad 2	Gwybodaeth ariannol 2008/09	14
Atodiad 3	Staff, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr CCC	16

Cymorth Cynllunio Cymru – yn gweithio tuag at system gynllunio fwy teg

Gwefan: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk
Cyngor ar ebost: post@cymorthcynlluniocymru.org.uk
Llinell Gymorth Cyngor: 02920 485 765
Ymholiadau cyffredinol: 02920 464 225

Elusen gofrestredig 1000115
Cwmni cyfyngedig drwy warant (2526875 - Cymru)

ISBN: 0-9553803-7-5
978-0-9553803-7-2

RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol Cymorth Cynllunio Cymru ar gyfer y cyfnod Ebrill 2008 i Fawrth 2009. Hon oedd y flwyddyn pryd y dathlwyd deng mlynedd ar hugain o ddarparu gwasanaethau cymorth cynllunio yng Nghymru a chredaf mai'r gwasanaeth a gynigir nawr yw'r gorau ers blynyddoedd.

Eleni gwelwyd cwblhau nifer o brosiectau pwysig a chyffrous y bu Cymorth Cynllunio Cymru yn ymwneud â nhw. Roedd hyn yn cynnwys cynorthwyo Cyngor Sir Gaerfyrddin gydag ymgysylltu â rhanddalwyr yn ystod camau cyntaf paratoi Cynllun Datblygu Lleol, datblygu gwaith allgymorth mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf a chynhyrchu cyhoeddiad canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Planning for Gypsy and Traveller Sites'. Cyflawnwyd hyn, a llawer mwy, gan dîm staff bach ond ymroddgar tu hwnt a gefnogir gan rwydwaith o wirfoddolwyr ymroddedig a

Bwrdd Cyfarwyddwyr cefnogol iawn. Mae lansio'r wefan ar ei newydd wedd yng Ngorffennaf 2008 wedi talu ar ei chanfed gan ddenu diddordeb sylweddol yn ein ystod gynyddol o weithgareddau ac mae hefyd wedi helpu recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Ni fyddai Cymorth Cynllunio Cymru yn gallu goroesi heb gefnogaeth yr holl wirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i helpu'r rhai hynny â'r angen mwyaf. Rhaid imi roi diolch arbennig i'r staff, y Cyfarwyddwyr a'r gwirfoddolwyr am eu holl ymdrechion yn ystod y flwyddyn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac RTPI Cymru ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth barhaus. Bydd y cysylltiad hwn yn parhau dros y flwyddyn i ddod ac un o'r mentrau i ddod i'r wyneb fydd rhaglen ar draws Cymru o hyfforddiant ymgysylltu ar gyfer cynllunwyr. Ac yng ngwanwyn 2010, bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnal Cynhadledd Genedlaethol Cymorth Cynllunio y gobeithiwn fydd yn denu llawer o ddiddordeb gan y rhai sy'n cymryd rhan neu sydd â diddordeb yn y system gynllunio yn y DU ac Iwerddon.

Ond mae un cwmwl du uwchben. Mae Peter Kingsbury, sydd wedi bod yn Drysorydd a phen bandit ariannol am y deng mlynedd diwethaf, wedi cyhoeddi ei fod am adael y swydd. Tra fy mod i a'm cyd Gyfarwyddwyr yn derbyn ei benderfyniad gyda thristwch, rydym yn diolch yn fawr iawn iddo am ei holl ymdrechion a'i ymroddiad yn y swydd a dymunwn yn dda iddo.

Tony Humphreys

Cadeirydd, Cymorth Cynllunio Cymru

Gwaith achos

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n parhau i ddarparu gwasanaeth cynghori Llinell Gymorth o ansawdd uchel gyda chymorth ein rhwydwaith o wirfoddolwyr sy'n gynllunwyr cymwys. Rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009, cawsom dros bedwar cant o geisiadau am wybodaeth, cyngor a chymorth ar ystod eang o faterion cynllunio. Roedd tua pumed rhan o'r rhain o grwpiau cymunedol a grwpiau buddiant lleol, ynghyd â phobl hŷn ac anabl gyda lefel uchel o angen. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gweithio i ddatblygu strategaeth farchnata i gynyddu'r gefnogaeth a roddwn i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Defnyddiwn feini prawf cymhwyster (gweler Atodiad 1) i sicrhau bod ein adnoddau cyfyngedig yn mynd i'r bobl sydd â'r angen mwyaf. Nid ydym yn gallu helpu pobl sy'n debygol o elwa'n ariannol o benderfyniad cynllunio – cyfeirir y galwyr hyn at restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig.



Math o ymholiad

Dengys y diagramau isod gymhwyster ein cleientiaid dros y flwyddyn a aeth heibio.



Cymhwyster cleientiaid

Enghreifftiau o waith achos o'r flwyddyn ddiwethaf

'Teulu Teithwyr yn ennill dyfarniad pwysig'

Yn ystod achos hirfaith cynorthwyodd y gwirfoddolwr Ian Horsburgh deulu o deithwyr y gwrthodwyd eu cais cynllunio i osod tri charafán ar dir o'u heiddo yng Nghasnewydd. Gweithiodd Ian gyda'r teulu i baratoi eu hachos apêl, ac mewn penderfyniad arloesol yn Rhagfyr 2008 gwyrdrowyd penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol gan yr Arolygydd Cynllunio gan ganiatáu i'r teulu aros ar y safle am dair blynedd. Gan nad oedd safleoedd amgen addas i deithwyr yn y sir, ym marn yr Arolygydd, byddai tair blynedd yn ddigon o amser i'r awdurdod ddarparu'r fath safleoedd. Roedd y wirfoddolwraig, Karen Potter, wedi gweithio'n eithriadol o galed i baratoi asesiad o berygl llifogydd ar gyfer y cais ac aeth ymlaen i ddrafftio cynllun dianc i sicrhau y gallai'r teulu adael y safle'n ddiogel pe bai llifogydd, yn unol â gorchymyn yr Arolygydd Cynllunio.

'Menyw fregus yn cael cadw ei ffens'

Mae Mrs A yn dioddef o sglerosis ymledol, yn gaeth i'w chartref ac yn byw ar ei phen ei hun. Wedi cael ei haflonyddu ers dros flwyddyn gan lanciau lleol, trefnodd godi ffens o amgylch ei heiddo i wneud iddi deimlo'n fwy diogel. Nid oedd Mrs A yn ymwybodol bod yn rhaid iddi gael caniatâd cynllunio ar gyfer y ffens a chysylltodd â Chymorth Cynllunio Cymru i ofyn am gymorth i rwystro gweithred gorfodaeth. Cynorthwywyd Mrs A gan Gymorth Cynllunio Cymru i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol a chyflwynodd ddatganiad llawn yn esbonio pam y teimlai bod yn rhaid iddi gael y ffens. O ganlyniad, caniataodd yr awdurdod cynllunio lleol iddi gadw'r ffens cyhyd ag y byddai Mrs A yn byw yn y tŷ hwnnw.

'Gwirfoddolwr yn egluro gweithdrefnau'

Rhoddodd Mark Jones, gwirfoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru esboniad manwl o'r broses gynllunio i Mrs B, oedd wedi cael gwybodaeth anghywir gan ei hawdurdod cynllunio lleol y gallai gyflwyno apêl trydydd parti yn erbyn caniatâd cynllunio ei chymydog. Eglurodd Mark, er nad oedd ganddi hawl i apelio, y gallai godi'r mater trwy weithdrefn cwynion y Cyngor ac, os byddai'n rhaid, gellid cyfeirio'r achos at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

'Dechrau da i gyfleuster chwaraeon'

Cysylltodd Mr C â Chymorth Cynllunio Cymru oherwydd nad oedd ei grŵp cymunedol yn siwr sut i gychwyn prosiect i adnewyddu cyfleuster chwaraeon ym Mro Morgannwg. Cynghorwyd hwy gan y wirfoddolwraig, Sarah Hensby, y byddai'n debygol y byddai'n rhaid iddynt gynnal astudiaeth ymarferoldeb i weld a oedd y prosiect yn ymarferol, a chynghorodd hi ar sut i gael cefnogaeth i baratoi un. Hefyd cynghorodd Sarah y grŵp i gychwyn trafodaeth yn gynnar gyda'r adran gynllunio os oeddent am wneud newidiadau i'r adeilad.

Rhannu gwybodaeth gyda chymunedau a'u cael i gymryd rhan

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n bwriadu cynyddu cyfranogaeth cymunedau lleol yn holl agweddau'r system gynllunio Gymreig. Rydym yn annog cymunedau i gymryd rhan yn fwy effeithiol trwy raglen o godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac addysg. Ffocws llawer o'n gwaith allgymorth yw grwpiau amddifad, allgaeedig neu'r rhai 'ni chlywir yn aml' sydd, yn draddodiadol wedi chwarae rhan fach iawn, neu ddim o gwbl, yn y system gynllunio.

Mae staff a gwirfoddolwyr Cymorth Cynllunio Cymru wedi bod yn gweithio gydag ystod o grwpiau penodol i hyrwyddo eu gallu i ddefnyddio'r system gynllunio er budd y gymuned leol. Mae'r rhai a elwodd yn cynnwys ffermwyr, busnesau bach iawn, grwpiau ethnig lleiafrifol, Teithwyr, pobl hŷn, pobl anabl, cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr, grwpiau diwylliannol Cymraeg ac ymddiriedolaethau datblygu lleol. Yn ystod y flwyddyn Ebrill 2008 i Fawrth 2009, llwydasom i helpu 21 o grwpiau cymunedol gydag achosion cynllunio, sy'n cynrychioli cyfanswm o 184 o aelodau. Hefyd llwyddasom i gyflwyno 16 o wahanol sesiynau i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth i gyfanswm o fwy na 650 o bobl.

Cynlluniau Datblygu Lleol

Ffocws pwysig i'n gwaith allgymorth yn ystod 2008-09 oedd codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol, ac yna hybu gallu'r gymuned i gymryd rhan yn y camau cychwynnol allweddol yng nghread y cynlluniau.

Buom yn gweithio gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin i annog ymgysylltu â rhanddalwyr yng nghamau cyntaf paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y sir. Golygodd hyn ddyfeisio rhaglen ymgysylltu manwl ar gyfer y cyfnod hyd at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir a hwyluso tri gweithdy ymgysylltu rhanddalwyr. Caniataodd hyn i'r cyfranogwyr weld cyd-destun ehangach eu hymrwymiad ac yna i wneud cyfraniad ystyrlon i ddatblygu opsiynau strategol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Gweithio gyda chynghorau cymuned a thref

Yn dilyn ein rhaglen hyfforddi peilot arloesol a chymeradwyedig ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned yn 2007/08, ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddabtlygu cyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau dysgu-o-bell ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru. Bydd y cynghorau'n gallu gweithio trwy'r deunyddiau hyn ar eu pennau eu hunain neu gyda thiwtor, neu gallant ddewis gomisiynu mwy o hyfforddiant wyneb-yn-wyneb.

Cynhaliwyd treialon cyntaf y deunyddiau hyfforddi hyn yn gynnar yn 2009. Roedd y sesiynau'n rhyngweithredol, yn defnyddio gwaith grŵp ac astudiaethau achos, a chawsant dderbyniad da. Dywedodd Jacky Maskall o Gyngor Cymuned Owrtyn:

"*Mae'r rhai ohonom a fynychodd yr hyfforddiant ar wella cyfathrebu gydag awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried ein hunain yn ffodus iawn. Rydym yn unfrydol yn dweud mai dyma'r sesiwn hyfforddi mwyaf defnyddiol y buom ynddi; agorwyd ein llygaid ynghylch yr angen i fod yn weithredol i newid sefyllfaoedd nad oeddem yn hapus yn eu cylch yn hytrach nag eistedd a chwyno. Rydym eisoes wedi cymryd y cam cyntaf ac yn cyfarfod Cadeirydd pwyllgor cynllunio ein awdurdod lleol nes ymlaen y mis hwn. Rydw i'n bersonol yn argymell i bawb sydd â'r cyfle (yn enwedig y rhai sydd â diddordeb mewn cynllunio) fynychu'r sesiwn hyfforddi yma.*"

Bydd y rhan fwyaf o'r deunyddiau hyfforddi dysgu-o-bell hyn ar gael am ddim i'w lawr-lwytho o'n gwefan erbyn diwedd yr haf 2009, ynghyd â ffynonellau gwybodaeth perthnasol a chysylltiadau eraill. Hefyd bydd cynghorau tref a chymuned yn gallu hurio hwyluswyr Cymorth Cynllunio Cymru i redeg sesiynau hyfforddi ar eu cyfer am bris gostyngedig.

Gweithio mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf

Amcan penodol Cymorth Cynllunio Cymru yw cefnogi cymunedau o fewn ardaloedd adfywio Cymunedau'n Gyntaf sydd â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Yn ystod 2008-09 buom yn gweithio gyda menter y Dref Werdd yn ardal Cymunedau'n Gyntaf Bowydd a Rhiw ym Mlaenau Ffestiniog i gefnogi prosiect gweledigaeth gymunedol i sianelu anghenion ac uchelgeisiau y gymuned leol i'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu. Hefyd buom yn cynnal sesiynau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth penodol ar gyfer partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf CwmNi yn Nhreherbert a Phartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi, a ni a ysgrifennodd y bennod 'Cynllunio a Defnydd Tir' mewn Pecyn o Eco-ganllawiau i Arwain Gweithredu Cymunedol ar gyfer grwpiau cymunedol yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Arferion da mewn Datganiadau Mynediad

Yn gynnar yn 2009 gwahoddwyd Cymorth Cynllunio Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynnig i gynhyrchu llyfryn byr, hawdd ei ddarllen ar sut i baratoi Datganiad Mynediad. Prif gynulleidfa'r llyfryn canllaw hwn fydd datblygwyr ac asiantwyr sydd ar fin cyflwyno cais cynllunio. Fe'i bwriedir hefyd ar gyfer swyddogion cynllunio sy'n ystyried Datganiadau Mynediad gyda cheisiadau cynllunio a Grwpiau Mynediad fydd efallai am roi sylwadau arnynt.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda Grwpiau Mynediad ac arbenigwyr eraill i ddylunio'r canllaw hwn a byddwn yn casglu adborth gan randdalwyr mewn sesiynau grwpiau ffocws. Bwriedir cyhoeddi'r canllaw yn Rhagfyr 2009, ac wedi hyn bydd ar gael am ddim o Gymorth Cynllunio Cymru ac i'w lawrlwytho o ystod o wefannau.

Canllaw cynllunio ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Yn Nhachwedd 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lyfryn gyda'r teitl, 'Planning for Gypsy and Traveller Sites', a baratowyd gan Gymorth Cynllunio Cymru. Mae'n esbonio, mewn iaith syml, y rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am hawliau pobl sy'n byw ar safle heb ganiatâd cynllunio ac yn rhoi awgrymiadau ar ble i fynd am fwy o gymorth a gwybodaeth. Gellir lawrlwytho'r llyfryn o wefan Llywodraeth y Cynulliad ar: http://new.wales.gov.uk/topics/planning/policy/guidance/gandtcaravansites/?lang=en

Cyhoeddiadau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau ar wahanol bynciau yn cynnwys:

- *'Arweiniad i'r system gynllunio defnydd tir'*
- *'Llawlyfr cynghorwyr cymuned a thref'*
- *'Beth i'w wneud pan yn wynebu cais cynllunio'*
- *'Cynllunio a hawl i olau'*
- *'Gorfodaeth cynllunio'*

Gwefan a chylchlythyr Cymorth Cynllunio Cymru

Gyda chefnogaeth hael Llywodraeth Cynulliad Cymru, lansiwyd gwefan newydd Cymorth Cynllunio Cymru yng Ngorffennaf 2008 ac erbyn diwedd Mawrth 2009 roedd wedi denu 42,000 o ymwelwyr. Mae'r safle'n hollol ddwyieithog ac yn rhoi i'r cyhoedd wybodaeth gynhwysfawr, hawdd ei defnyddio ar holl agweddau cynllunio yng Nghymru. Rydym am i'r wefan annog y cyhoedd i gymryd rhan mwy ystyrlon mewn cynllunio drwy dywys pobl sydd ddim yn gynllunwyr trwy'r casgliad o wybodaeth berthnasol sydd ar gael yn barod ar-lein, a'i dehongli yn ôl yr angen. Gellir mynd at y wefan fel hyn: www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Ym mis Medi lansiwyd ein cylchlythyr cymuned, a ddosberthir yn electronig i bartneriaid, rhanddalwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn derbyn newyddion am ein gwaith. Gallwch danysgrifo i'r cylchlythyr trwy ebostio marika@cymorthcynlluniocymru.org.uk

Cynnig gwasanaeth dwyieithog

Rydym nawr wedi cwblhau ail flwyddyn ein Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n cofnodi'r gweithredu sy'n angenrheidiol dros gyfnod o dair blynedd i ddarparu gwasanaethau sy'n hollol ddwyieithog. Yn ystod 2008-09 buom yn cynnig i'n cleientiaid oedd yn ceisio cyngor, y dewis i drafod eu hachos un ai yn Saesneg neu yn Gymraeg, ac mae'n holl gyhoeddiadau, yn cynnwys ein gwefan ar gael yn y ddwy iaith.

Ym mis Mawrth 2009 cynhaliwyd diwrnod hyfforddi Ymwybyddiaeth yr Iaith Gymraeg ar gyfer staff, cyfarwyddwyr a gwirfoddolwyr, gyda'r canlyniad bod y cyfranogwyr yn frwdfrydig iawn ynghylch adolygu ac ehangu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2009-10 ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Datblygu'r sefydliad

Cydlynnir y gwasanaethau a ddarperir gan Gymorth Cynllunio Cymru gan dîm bach o staff cyflogedig yn gweithio gyda rhwydwaith ledled Cymru o wirfoddolwyr cynllunio a chymunedol. Mae Bwrdd o bymtheg Cyfarwyddwr yn llywio'r sefydliad, gan sicrhau ein bod yn cyflawni'n cyfrifoldebau dan gyfraith cwmni ac elusen.

Y tîm staff

Pennaeth Cymorth Cynllunio Cymru yw Prif Weithredwr sy'n atebol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am gynnal a rheoli'r gyfundrefn a'r staff.

Mae Cynllunydd a Rheolwr Achos yn gyfrifol am y Llinell Gymorth, yn cynnwys cyfeirio ymlaen at wirfoddolwyr, a datblygu'r rhwydwaith o wirfoddolwyr ledled Cymru.

Cyflogir Swyddog Datblygu yn rhan-amser i ddatblygu'n rhaglen waith allgymorth gyda chymunedau lleol a grwpiau ymylol.

Mae Gweinyddydd a Swyddog Ariannol rhan-amser yn cefnogi'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r staff.

Bwriad Cymorth Cynllunio Cymru yw cynyddu'r tîm staff yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn ceisio arian cychwynnol ar gyfer Swyddog Hyfforddi i gydlynu ein gweithgareddau hyfforddi ac hefyd yn gobeithio apwyntio unigolyn gyda gradd fel Cynorthwy-ydd Cynllunio i gynorthwyo gyda gwasanaethu'r Llinell Gymorth a chynyddu'r canran o achosion a gyfeirir at y gwirfoddolwyr.

Rhwydwaith y gwirfoddolwyr

Cynyddodd rhwydwaith y gwirfoddolwyr yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf gyda 33 o wirfoddolwyr newydd yn ymuno â'r sefydliad, gan godi'r cyfanswm i 82. Rydym bob amser wedi dibynnu ar ein gwirfoddolwyr i ddarparu cefnogaeth gwerthfawr i'n gwasanaethau gwaith achos a hyfforddiant, ond gallwn nawr hefyd groesawu gwirfoddolwyr sydd heb gefndir cynllunio. Rydym wedi datblygu dau gategori newydd o wirfoddolwyr i gydfynd â'r cynllunwyr cymwys sy'n gallu cynnig cyngor a chefnogaeth i aelodau'r cyhoedd. Y rhain yw gwirfoddolwyr cymunedol sy'n helpu i ddatblygu ein gweithgareddau allgymorth, a'r gwirfoddolwyr yn y swyddfa sy'n ymgymeryd â lleoliadau gwaith yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Felly yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad a gynigir gan y cynllunwyr profiadol, sef y mwyafrif o'r rhwydwaith o wirfoddolwyr, gallwn nawr ddefnyddio egni a brwdfrydedd cynllunwyr iau, gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr a phobl sy'n awyddus i helpu cymunedau i ymgysylltu yn y broses cynllunio.



Mathau o wirfoddolwyr

Rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2009, amcangyfrifwn bod ein gwirfoddolwyr gyda'i gilydd wedi cyfrannu dros saith gant o oriau o'u hamser i helpu Cymorth Cynllunio Cymru gyda'i waith. Dros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gosod mecanyddwaith i gofnodi'n fanwl yr amser mae gwirfoddolwyr yn ei gyfrannu a'r gweithgareddau maent yn eu cyflawni.

Gwyddom gan ein gwirfoddolwyr bod gwirfoddoli gyda Chymorth Cynllunio Cymru yn rhoi agwedd newydd a defnyddiol ar ymwneud y cyhoedd yn y broses gynllunio. Mae'r gwirfoddolwyr yn parhau i adrodd bod y profiad a gafwyd fel arfer yn werthfawr ac yn ddefnyddiol pan fyddant yn ôl yn y gweithle.

'Penllanw fy mlwyddyn fel gwirfoddolwraig oedd helpu i ennill apêl i deulu a fyddai fel arall wedi colli eu cartref. Yn ogystal â rhoi boddhad mawr imi wrth roi fy sgiliau ar waith er eu mwyn, roeddwn yn gwthio fy ffiniau fy hun ac yn cael profiad ac yn dysgu sgiliau newydd gwerthfawr o fewn amgylchedd gefnogol Cymorth Cynllunio Cymru.'

Karen Potter,
gwirfoddolwraig gwaith achos

'I mi, yn syml, mae gwirfoddoli i helpu aelodau'r gymuned gyda phroblemau cynllunio, yn golygu helpu pobl, dim byd mwy. Yr hyn sy'n fy nghadw i i fynd ac i eisiau gwneud mwy yw gwybod ambell waith bod fy nghyngor i wir yn gallu helpu pobl fyddai fel arall yn teimlo'n anabl i effeithio ar benderfyniadau cynllunio fyddai ag effeithiau go iawn ar eu bywydau.'

Ste James,
gwirfoddolwr gwaith achos

'Rydw i'n gwirfoddoli oherwydd teimlaf ei bod yn bwysig bod pawb yn cael cyfle i ddylanwadu ar beth sy'n digwydd yn eu cymuned. Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn helpu i roi llais i'r rhai fyddai fel arall heb lais o gwbl.'

Justin Waite,
gwirfoddolwr gwaith achos

'Des yn wirfoddolwr swyddfa gyda Chymorth Cynllunio Cymru i'm helpu i ddeall cyd-destun y system gynllunio yn y DU ac i ddatblygu fy sgiliau cynllunio ar gyfer fy ngyrfa. Hefyd rwyf wedi darganfod bod helpu staff i gynorthwyo cymunedau yn werth chweil.'

Prachi Pandya, gwirfoddolwraig swyddfa

Recriwtio gwirfoddolwyr

Bydd Cymorth Cynllunio Cymru'n gweithio dros y tair blynedd nesaf i gyflawni safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr. Mae gennym gynllun gweithredu i ddatblygu holl agweddau'r rhwydwaith gwirfoddolwyr yn unol â'r safon. Rydym bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr newydd, felly os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli'ch sgiliau cynllunio neu ymgysylltu â'r gymuned, ewch i www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering i ddarganfod mwy.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn cynnig cyfle i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau personol a phroffesiynol yn ogystal â chael persbectifau unigryw ar y system gynllunio.

Gwirfoddolwyr sy'n gadael

Llawer o ddiolch a phob lwc i'r gwirfoddolwyr sy'n ein gadael, Gemma Hideng, Sonja Thompson, Janice Tse, Siobhan Wiltshire, Max Smith, Alan Groves, Mike Thorne a Paul Carter.

Rhwydweithio a hyfforddi gwirfoddolwyr

Trefnodd Cymorth Cynllunio Cymru ddau ddigwyddiad anwytho / nosweithiau gwirfoddolwyr ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a newydd yng ngogledd a de Cymru eleni. Dyluniwyd y gweithgareddau i gyflwyno ein gwerthoedd, polisïau ac ymarferion i wirfoddolwyr newydd, a hefyd rhoesom gyfle i'n gwirfoddolwyr presennol adnewyddu eu sgiliau. Bwriadwn barhau i gynnig y digwyddiadau hyn bob chwe mis fel rhan o'n rhaglen hyfforddi blynyddol i wirfoddolwyr.

Cynigir lleoedd am ddim i wirfoddolwyr mewn digwyddiadau hyfforddi ymgysylltu a drefnir gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer cynllunwyr awdurdodau lleol. Bydd rhain yn cymryd lle ym Mehefin 2009 mewn pump rhanbarth ledled Cymru, yn cynnig cyfleoedd i gynllunwyr i ddatblygu eu sgiliau ymgysylltu'r gymuned. Trwy weithio gyda Rhwydwaith Cynllunwyr Ifanc Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol trefnwyd dwy noson gwis yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer gwirfoddolwyr, cydweithwyr cynllunio a chyllunwyr ifanc yng Nghaerdydd. Roedd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda dros 180 o gynllunwyr yn mynychu a chodwyd bron i £500 i Gymorth Cynllunio Cymru. Byddwn yn trefnu nosweithiau cwis eraill a digwyddiadau tebyg dros y flwyddyn sydd i ddod.

Bwrdd Cyfarwyddwyr

Yn Atodiad 3 ceir rhestr o'r bobl a wasanaethodd fel Cyfarwyddwyr ar Fwrdd Rheoli Cymorth Cynllunio Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi rhoi eu hamser, ynni, profiad a'u sgiliau'n hael i ddatblygu ein gwaith gan gyfrannu'n enfawr at y datblygiadau a wnaethpwyd.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn ffurfiol bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n atebol dan gyfraith elusen a chwmni i sicrhau bod Cymorth Cynllunio Cymru'n cadw at ei amcanion sylfaenol a bod rheolaeth effeithiol ar y cyllid. Daw'r Cyfarwyddwyr o wahanol sectorau yn cynnwys llywodraeth leol, ymgynghoriaeth ac academia, ac yn dod o wahanol leoedd ledled Cymru. Enwebir un Cyfarwyddwr gan Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd wedi helpu i atgyfnerthu ein trefniadau rheoli risg sefydliadol, wedi adolygu Llawlyfr y staff i adlewyrchu newidiadau diweddar mewn cyfraith gyflogaeth ac wedi gwneud archwiliad cynhwysfawr o sgiliau'r Bwrdd.

Dros y flwyddyn i ddod byddwn yn ceisio recriwtio tri Chyfarwyddwr ychwanegol fydd yn gallu cynnig sgiliau i gyflenwi'r rhai a gynigir gan y cyfarwyddwyr presennol. Mae gennym strategaeth fabwysiedig ar gyfer recriwtio ac adnewyddu'r Bwrdd, ac mae pecyn gwybodaeth a recriwtio cynhwysfawr ar gyfer pobl â diddordeb mewn ymuno â'r Bwrdd ar gael - ewch i http://www.cymorthcynlluniocymru.org.uk/volunteering/board-recruitment

Gweithio mewn partneriaeth

Ni all Cymorth Cynllunio Cymru'n weithio'n effeithiol heb gefnogaeth partneriaid, i godi arian ac i greu mentrau prosiect newydd. Ar hyn o bryd rydym yn cael arian craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, sy'n talu am staff, swyddfa a chostau eraill sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor craidd.

Rydym yn ategu at gyllid craidd trwy ymgymryd â phrosiectau comisiwn gydag amrediad o sefydliadau partner a thrwy draddodi hyfforddiant. Mae gwaith prosiect a gweithgareddau eraill sy'n talu ffioedd yn allweddol i ddatblygu ein gwaith ac yn cyfrannu at gymysgedd o gyllid sy'n fwy cynaliadwy.

Yn Atodiad 2 gwelir manylion ariannol yn dangos sut y cynhyrchwyd a gwariwyd yr adnoddau gan Gymorth Cynllunio Cymru yn y flwyddyn ariannol Ebrill 2008 i Fawrth 2009.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda'r sefydliadau partner canlynol, ar wahanol lefelau o ddylanwad ac ar draws gwahanol ardaloedd daearyddol a phynciau.

Partneriaid strategol

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

Partneriaid rhaglen

- Un Llais Cymru
- Cymunedau'n Gyntaf

Partneriaid prosiect

- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Gwasanaethau Cymorth Cynllunio yn Yr Alban, Lloegr a Llundain
- Sefydliadau'n cefnogi Sipsiwn a Theithwyr
- Anabledd Cymru

Edrych ymlaen

Gyda chefnogaeth grant barhaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru rydym wedi symud i mewn i feysydd gwaith newydd. I gydfynd â'n Llinell Ffôn Gymorth rydym nawr yn traddodi hyfforddiant cynllunio i ystod o gynulleidfaoedd, yn cyhoeddi taflenni sy'n rhoi cyngor a chanllaw, yn cynorthwyo gyda mentrau ymgysylltu cymunedol yr awdurdodau lleol ac yn ymateb i ymgynghoriadau polisi cenedlaethol ar ran defnyddwyr y system gynllunio.

Yn ystod y flwyddyn i ddod…

… bydd gwasanaethau cymorth cynllunio ledled y Deyrnas Unedig yn chwarae rôl fwy pwysig fyth yn y broses gynllunio gyda chefnogaeth diwygiadau cynllunio.

… bydd Cymorth Cynllunio Cymru'n ymateb trwy gynyddu'r tîm staff a'r rhwydwaith gwirfoddolwyr. Mae strategaeth tyfiant yn ei le ar ffurf cynllun busnes ar gyfer 2009 i 2012.

… bydd ein gallu i weithio gyda chymunedau ymylol yn cynyddu trwy weithgareddau a phartneriaethau newydd a dyfeisgar.

… bydd parhau i weithredu'n strategaeth gyfeirio yn cynyddu cyfrannau'r galwadau cymwys i'r Llinell Gymorth gan gleientiaid â mwy o gymhwyster, a bydd strategaeth farchnata newydd yn marchnata ein gwasanaethau i bobl gyda'r angen mwyaf.

… bydd ein rhwydwaith o wirfoddolwyr cynllunio cymwys a phrofiadol yn parhau i dyfu, gyda chefnogaeth rhaglen o gyfleoedd defnyddiol hyfforddiant, anwytho a rhwydweithio mewn lleoliadau ar draws Cymru.

… cyfeirir cyfran fwy o'n hachosion o'r Llinell Gymorth at wirfoddolwyr, a bydd y gwirfoddolwyr yn cyfrannu hyd yn oed yn fwy ymhob rhan o'n gwaith.

… byddwn yn cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau hyfforddiant cynllunio penodol ar gyfer cynghorwyr cymuned a thref.

… byddwn yn paratoi Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf.

…ynghyd â RTPI Cymru byddwn yn trefnu Derbyniad Cynllunio ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ac eraill.

…byddwn yn cyhoeddi canllaw hawdd ei ddefnyddio ar Ddatganiadau Mynediad.

…mae Cymorth Cynllunio Cymru'n edrych ymlaen at drefnu Cynhadledd Flynyddol Cymorth Cynllunio'r Deyrnas Unedig yn gynnar yn 2010.

Atodiad 1: Meini Prawf Cymhwyster Cymorth Cynllunio Cymru



Lefelau cymhwyster

Lefel 1 - Gwybodaeth

Tirfeddianwyr domestig sydd am ddatblygu, a phobl sydd ddim yn ymwybodol o'r system gynllunio ac a hoffai gymryd rhan.

Lefel 2 - Cyngor

Trydydd parti sydd yn dymuno mynegi eu safbwyntiau ar gais cynllunio neu gynllun datblygu, busnesau gyda phump neu lai o weithwyr, a chynghorau cymuned a thref.

Lefel 3 - Cefnogaeth

Grwpiau cymuned a gwirfoddol, pobl yn dioddef rhagfarn oherwydd oedran, hil, cenedligrwydd, iaith, anabledd, rhyw, rhywioldeb neu gefndir cymdeithasol, neu unrhywun sydd methu ag ymrwymo yn y system gynllunio oherwydd rhwystrau dysgu neu iaith.

Esbonio cymhwyster

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n darparu gwahanol lefelau o wasanaeth i gleientiaid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Adolygir ein meini prawf yn flynyddol a mabwysiadwyd y meini prawf newydd, symlach yn Ionawr 2008. Cynigiwn dair lefel o wasanaeth i'n cleientiaid:

Gwybodaeth: Yn cynnwys disgrifiad o'r rhan berthnasol yn y broses gynllunio, cyfeirio ymlaen at lenyddiaeth canllaw berthnasol neu restr o ymgynghorwyr cynllunio ardystiedig.

Cyngor: Yn cynnwys helpu cleientiaid i ddatblygu strategaethau a dadleuon i ddelio gyda materion cynllunio a thramwyo'r system gynllunio.

Cefnogaeth: Yn cynnwys cynrychioli cleientiaid, cysylltu â sefydliadau cysylltiedig, cwblhau gohebiaeth a ffurflenni fel bo'n briodol, a helpu paratoi ymatebion i geisiadau cynllunio.

Y rhai na allwn helpu

Ni all Cymorth Cynllunio Cymru helpu'r bobl ganlynol:

- Ymgynghorwyr cynllunio, penseiri, asiantwyr ac ati.
- Busnesau masnachol maint canolog i fawr.
- Unigolion neu grwpiau sy'n debygol o elwa o unrhywbeth mwy na datblygiad bach yn eu tŷ.
- Rheiny sydd ag incwm i dalu am ymgynghorwr cynllunio.

Atodiad 2: Gwybodaeth ariannol 2008/09

Datganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2009

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2009 £	Cyfanswm 2008 £
Adnoddau'n dod i mewn				
Gweithgareddau er hyrwyddo amcanion yr elusen				
Grantiau a dderbyniwyd	8,000	127,265	135,265	125,225
Rhoddion	40	-	40	355
Digwyddiadau codi arian	659	-	659	204
Gwerthiant cyhoeddiadau	735	-	735	2,325
Llog banc a dderbyniwyd	415	-	415	433
Incwm arall	1,329	-	1,329	216
Ffioedd yn dderbyniadwy	-	-	-	8,030
Cyfanswm adnoddau'n dod i mewn	11,178	127,265	138,443	136,788
Adnoddau a wariwyd				
Gwariant elusennol uniongyrchol *(gweler y manylion isod)*	-	134,382	134,382	121,230
Rheolaeth a gweinyddiaeth	3,480	-	3,480	4,232
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	3,480	134,382	137,862	125,462
Adnoddau net yn dod i mewn ar gyfer y cyfnod	7,698	(7,117)	581	11,326
Cronfeydd a gariwyd ymlaen	23,321	22,220	45,541	34,215
Cronfeydd i'w cario ymlaen	**31,019**	**15,103**	**46,122**	**45,541**

Gwariant elusennol uniongyrchol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2009 £	Cyfanswm 2008 £
Prosiect Sipsiwn a Theithwyr	-	2,989	2,989	1,354
Swydd Gyflenwi	-	-	-	1,265
Cyfnod 2 CCaTh 2008	-	2,327	2,327	-
Prosiect Sir Gaerfyrddin 2008	-	2,136	2,136	-
Prosiect Mynediad 2009	-	7	7	-
Prosiect hyfforddi ymgysylltu	-	652	652	-
Cynllun Iaith Gymraeg	-	1,929	1,929	-
Cyflogau	-	87,415	87,415	82,542
Cyfraniadau Pensiwn	-	2,416	2,416	1,490
Yswiriant Indemniad	-	875	875	904
Ffôn, ffacs a'r rhyngrwyd	-	2,847	2,847	2,660
Swyddfa	-	7,551	7,551	7,104
Treuliau Cyfarwyddwyr	-	1,101	1,101	1,026
Cyflenwadau swyddfa a phapur	-	1,372	1,372	943
Postio ac argraffu	-	1,274	1,274	204

	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2009 £	Cyfanswm 2008 £
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	-	505	505	421
Marchnata	-	509	509	1,033
Costau recriwtio	-	515	515	797
Hyfforddi staff a gwirfoddolwyr	-	1,496	1,496	6,842
Tanysgrifiad a llyfrau	-	1,102	1,102	1,039
Treuliau staff a gwirfoddolwyr	-	3,248	3,248	3,949
Treuliau cyfarfodydd a chynadleddau fideo	-	651	651	283
Swyddfa Gogledd Cymru	-	1,248	1,248	1,328
Gwefan / TG	-	7,422	7,422	5,722
Llawlyfrau	-	39	39	162
Ysgol Haf	-	-	-	162
Rhwydweithio allgymorth	-	336	336	-
Costau eraill hyfforddi	-	70	70	-
Hyfforddiant PCBB	-	2,350	2,350	-
	-	134,382	134,382	121,230

Cymorth cynllunio cymru mantolen ar 31 Mawrth 2009

	2009 £	2008 £
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	494	1,222
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Gwaith ar y gweill	-	8,030
Dyledwyr	8,461	1,461
Arian yn y banc	39,851	47,419
	48,612	57,210
Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(2,984)	(2,891)
Incwm gohiriedig	(-)	(10,000)
Asedion cyfredol net	45,628	44,319
Cyfanswm yr asedion namyn y dyledion cyfredol	**46,122**	**45,541**
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	31,019	23,321
Cyfyngedig	15,103	22,220
Cronfeydd yr aelodau	**46,122**	**45,541**

Cymerwyd y ffigyrau uchod o gyfrifon drafft 2008/09, sy'n destun archwiliad. Mae cyfrifon llawn ar gael ond i chi ofyn.

Atodiad 3: Cyfarwyddwyr, gwirfoddolwyr a staff

Gwirfoddolwyr

Adam Wilkinson
Allan Archer
Anouska Francis
Barry Lomax
Brian Davies
Catrin Jones
CE Zhang
Celia Chow
Clare Taylor
Clive James
Clive Williams
Daphne Thomas
Dave Lucas
Davina Powell
Elaine Thomas
Eleri Davies
Elliw Owen
Emily Dawson
Emma Parsons
Ffion James
Francesca Diamani
Francis Amekor
Guy Hamilton
Heather Williams
Helen Ridgway
Huw Thomas
Ian Horsburgh
Iwan Lloyd Hughes
John Bowers
John Lambert
Jon Talbot
Jonathan Parsons
Julia Phan
Justin Waite
Karren Potter
Kate Powell
Kate Thomas
Katherine Hughes
Katherine Salter
Kathleen Norton
Kay Powell
Ken Richards
Laura Dagless
Lucie Taylor
Lucy Hill
Marianne Auzanet
Mark Dakeyne
Mark Jones
Matt Lord
Matthew Griffiths
Michael Fowler
Michael Hughes
Mike Jones
Miriam Evans
Mutahir Awan
Naganika Sanga
Natasha Lade
Nicola Caie
Owain Wyn
Patrick Moss
Paul Slater
Pete Drew
Peter Glyn Aubrey
Peter Kingsbury
Peter Laxton
Peter Taylor
Phil Bristow
Phil Mclean
Prachi Pandya
Rachel Robertson
Rhian Brimble
Robert Green
Sarah Hensby
Sarah Minett
Sebastian Loyn
Solomon Anyiam
Ste James
Stephen Agyeman-Kuma
Steve Cranston
Tracey Brooks
Victoria Phillips
Xi Zhang

Cyfarwyddwyr

Cadeirydd

Tony Humphreys	Cynllunydd (wedi ymddeol)

Trysorydd

Peter Kingsbury	Cyngor Caerdydd

Allan Archer	Dinas a Sir Abertawe
Kathryn Beard	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Steve Cranston	Steve Cranston Associates (i Orffennaf 2008)
Mark Dakeyne	Yr Arolygiaeth Gynllunio (i Ebrill 2008)
Martin Eaglestone	Cyngor Sir Ynys Môn (i Chwefror 2009)
Neil Harris	Ysgol Gynllunio Tref a Rhanbarth Caerdydd
James Hooker	Cynrychiolydd RTPI Cymru (i Ragfyr 2008)
Ian Horsburgh	Cyngor Caerdydd
Katherine Hughes	Ymgynghorydd datblygiad ac ymchwil cymunedol
Sioned Hughes	Cartrefi Cymunedol Cymru (i Ebrill 2008)
John Lambert	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Kathleen Norton	Cynllunydd (wedi ymddeol)
Lucie Taylor	Cynrychiolydd RTPI Cymru (o Ionawr 2009)
Owain Wyn	Ymgynghorydd cynllunio ac adfywio

Staff

Elwyn Thomas	Prif Weithredwr
James Davies	Cynllunydd a Rheolwr Achos
Marika Fusser	Gweithiwr Datblygu Gogledd Cymru
Sue Saunders	Gweinyddydd